

Eich cyf / Your ref:

Ein cyf / Our ref:

Dyddiad / Date:

Gov

15/02/2017



Llywodraethwyr

Governors

Annwyl Lywodraethwr

Yn ddiweddar, mae Cabinet Aelodau Etholedig Cyngor Sir Ddinbych ac Esgobaeth Wrecsam wedi cymeradwyo ymgynghori ynglŷn â'r cynnig canlynol;

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu cau Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair (Ysgol Mair) ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ar 31 Awst 2019; a bydd Esgobaeth Wrecsam yn sefydlu Ysgol Gatholig newydd 3-16 mlwydd oed ar y safle presennol o 1 Medi 2019.

Erbyn hyn, rydym ni'n barod i gynnal ymgynghoriad ar y Cynnig. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori â rhieni disgyblion Ysgol Mair ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones, staff y ddwy ysgol, ysgolion eraill perthnasol, awdurdodau cyfagos, cynghorwyr lleol, AC etholaeth a rhanbarthol, AS a budd-ddeiliaid eraill sydd â chysylltiad.

Bydd y broses ymgynghori yn para 6 wythnos, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd cyfle i chi, ac i unrhyw bartion eraill sydd â chysylltiad, i leisio eich barn. Bydd hyn yn cynnwys cyfarfodydd gyda chi a'ch cydweithwyr i drafod y cynnig.

Rydym ni wedi paratoi ac yn amgáu copi o'r ddogfen ymgynghori sy'n cynnwys cefndir ac esboniad o'r Cynnig.

Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ddogfen ar gael yn yr ysgol ac ar y rhyngwyd ar y wefan ganlynol:

www.sirdinbych.gov.uk/ymgyngoriadau

Cynhelir y cyfarfod ymgynghori ar gyfer y ddau gorff llywodraethu yn Ysgol Mair **ddydd Llun 27 Chwefror am 6pm.**

Dear Governor

Denbighshire County Council's Cabinet of elected members and the Diocese of Wrexham have recently approved a consultation regarding the following proposal;

Denbighshire County Council to close St. Mary's Catholic Primary school (Ysgol Mair) and Blessed Edward Jones Catholic High school on the 31st August 2019; and the Diocese of Wrexham to establish a new 3-16 Catholic School on the existing site from the 1st September 2019.

We are now ready to carry out the consultation into the Proposal. This will involve us consulting with the parents of pupils at St. Mary's/ Ysgol Mair and Blessed Edward Jones Catholic High school, members of staff at both schools, other relevant schools, neighbouring authorities, local Councillors, constituency and regional AM's, MP's and other interested stakeholders.

The process of consultation will last 6 weeks, during which you and other relevant interested parties will have the opportunity to give your views. This will include meetings with you and your colleagues to discuss the proposal.

We have prepared and enclose a copy of a consultation document which sets out the background to and an explanation of the Proposal.

English and Welsh language versions of the document may be found at the school and on the internet at the following website:

www.denbighshire.gov.uk/consultations

The consultation meeting for both governing bodies will be held at St. Mary's/ Ysgol Mair on **Monday 27th February at 6pm.**

Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi siarad yn uniongyrchol gyda fi, fy nghydweithwyr a chynrychiolwyr o Esgobaeth Wrecsam.

Gallwch holi cwestiynau a lleisio eich barn. Yn ogystal â'r cyfarfod hwn, gallwch hefyd fynegi barn yn ysgrifenedig ar y Cynnig; mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi sut gallwch wneud hynny.

Bydd y Gwir Barchedig Peter M. Bignall, Esgob Wrecsam a minnau yn cyflwyno'r cynnig Nos Fawrth y 7fed o Fawrth yn Neuadd y Dref y Rhyl am 5.30pm, croeso i chi gyd.

Bydd y cyfnod ymgynghori'n dechrau 15 Chwefror 2017 ac 30 Mawrth 2017 gan gynnwys y dyddiadau hynny.

Nid oes penderfyniad wedi ei wneud ac rydym ni'n croesawu eich barn ar y Cynnig ac unrhyw awgrym arall.

Yn gywir

This will provide you with a chance to speak directly with me, my colleagues and representatives from the Diocese of Wrexham.

You can ask questions and express your views. In addition to this meeting, you may also submit written views on the Proposal; the consultation document contains details of how to do this.

The Rt. Rev'd Peter M. Brignall, Bishop of Wrexham and myself will be presenting the proposal on Tuesday 7th March at Rhyl Town Hall at 5.30pm, all are welcome.

The consultation period runs from 15 February to 30 March 2017 inclusive.

No decision has been taken and we welcome your views on the Proposal and any alternatives you may wish to suggest.

Yours faithfully



Karen Evans

**Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Phlant
Head of Education and Children's Services**

Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62,
Rhuthun, LL15 9AZ
Ffôn: 01824 708064

e-bost: karen.evans@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk

Denbighshire County Council, PO BOX 62,
Ruthin, LL15 9AZ
Phone: 01824 708064

e-mail: karen.evans@denbighshire.gov.uk
Website: www.denbighshire.gov.uk